

Canllaw ar Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd Caerffili

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This publication is available in English. It is available in other languages and formats on request.

Dylid defnyddio'r canllaw hwn gyda Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) a'r deunyddiau hyfforddi i gynorthwyo gyda chwblhau atgyfeiriadau am wasanaethau atal ar gyfer teuluoedd.

- Esboniwch Broses JAFF ac esboniwch y bydd y broses yn cynnwys rhannu gwybodaeth am ddefnyddiwr y gwasanaeth gydag asiantaethau/gwasanaethau eraill.
- Esboniwch fod hon yn broses sy'n seiliedig ar gydsynio a bod hawl ganddyn nhw i dynnu'r cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg.
- Esboniwch y broses fydd yn cael ei dilyn os ystyrir bod plentyn yn wynebu risg; nid yw hon yn broses sy'n seiliedig ar gydsynio.
- Darllenwch adran 'Sut byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth' y JAFF gyda Defnyddiwr y Gwasanaeth a chynigiwch yr Hysbysiad Preifatrwydd Llawn iddyn nhw os oes angen rhagor o wybodaeth arnyn nhw (mae'r ddolen ar gael ar ddiwedd yr adran 'Sut byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth').
- Darllenwch Adran 2, Pwynt 31 'Manylion am y Cydsyniad a Gafwyd' y JAFF a chadarnhau bod Defnyddiwr y Gwasanaeth yn deall i beth maent yn cydsynio.
- Cofnodwch y cydsyniad a naill ai gofynnwch i Ddefnyddiwr y Gwasanaeth lofnodi'r adran gydsynio neu gallwch chi, fel gweithiwr proffesiynol sydd wedi trafod y broses ar lafar gyda nhw ac wedi cael cydsyniad, ei llofnodi ar ran y Defnyddiwr.

Gweler Atodiad A am y 'Broses Pwynt Cyswllt Cyntaf'

Cwblhau Ffurflen JAFF

Adran 1 – Data personol allweddol

1. Ticiwch y blwch priodol. Os yw hwn yn atgyferriad unigol, bydd angen llenwi'r wybodaeth am aelodau eraill o'r teulu sy'n byw yn yr un tŷ. Os yw hwn yn atgyfeiriad teuluol, rhowch fanylion y plentyn a enwyd ym mhwyntiau 2 a 3, a gweddill y teulu ym mhwynt 14.
2. Nodwch y cyfenw (fel mae'n ymddangos ar y dystysgrif geni, y dystysgrif priodas neu ddogfen gyfreithiol arall).
3. Nodwch enw cyntaf (fel mae'n ymddangos ar y dystysgrif geni, y dystysgrif priodas neu ddogfen gyfreithiol arall).
4. Os yw'r unigolyn yn defnyddio ffugenw, enw o ddewis neu enw arall yn lle enw cyfreithiol, nodwch ef yma.
5. Nodwch rywedd yr unigolyn.
6. Nodwch enw ysgol yr unigolyn neu ei Rif Yswiriant Gwladol os yw'n hysbys – mae Rhif Yswiriant Gwladol yn bwysig ar gyfer Cefnogi Pobl.
7. Nodwch y Dyddiad Geni fel diwrnod / mis / blwyddyn.
8. Nodwch enw meddyg teulu'r unigolyn. Os nad yw wedi'i gofrestru â meddyg teulu, nodwch enw'r meddyg teulu diwethaf yr oedd wedi'i gofrestru ag ef gan nodi nad yw wedi cofrestru ag un ar hyn o bryd.
9. Nodwch gyfeiriad a rhif ffôn cyswllt y meddyg teulu. Os nad yw'r unigolyn wedi'i gofrestru â meddyg teulu, nodwch enw'r meddyg teulu diwethaf yr oedd wedi'i gofrestru ag ef gan nodi nad yw wedi cofrestru ag un ar hyn o bryd.
10. Nodwch gyfeiriad presennol neu gyfeiriad diweddaraf yr unigolyn, gan gynnwys nodi a yw'n gyfeiriad dros dro.
11. Os yw cyfeiriad parhaol yr unigolyn yn wahanol i bwynt 10, llenwch yr adran hon.
12. Nodwch holl fanylion cyswllt hysbys yr unigolyn yn yr adran hon, gan nodi'r dull cyswllt o ddewis.
13. Ticiwch y blwch perthnasol os yw'n hysbys, neu nodwch ragor o wybodaeth o dan arall e.e. carafán, o sofffa i sofffa.
14. Nodwch a oes unrhyw anghenion o ran tai neu risg o ddigartrefedd e.e. risg o gael ei droi allan, ôl-ddyledion rhent ac ati, gan yr unigolyn.
15. Rhestrwch yr holl unigolion arwyddocaol yn y teulu, yn ogystal â'u Dyddiadau Geni neu Ddyddiad Geni Disgwyliedig unrhyw blant sydd heb eu geni eto, rhywedd, os oes ganddyn nhw gyfrifoldebau fel rhieni, cyfeiriad, eu perthynas â'r unigolyn a enwyd ac ysgol/Rhif Yswiriant Gwladol os yw'n hysbys. Os yw cyfeiriad yr aelodau o'r teulu yr un peth â'r unigolyn a enwyd, gallwch nodi 'pwynt 10' neu 'bwynt 11' yn y golofn 'cyfeiriad'.
16. Nodwch enwau unrhyw asiantaethau cymorth penodol eraill sy'n gweithio, neu wedi bod yn gweithio, gyda'r person a enwyd neu'r teulu. Dyma rai enghreifftiau: Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, Gwasanaeth Prawf, asiantaethau cymorth y sector Gwirfoddol, Gwasanaethau Tai, Iechyd, Addysg ac ati.
Os oes asiantaethau cymorth penodol wedi'u nodi, nodwch enw'r asiantaeth/gwasanaeth ynghyd â gwybodaeth am p'un a oedd y gwasanaeth yn llwyddiannus ai peidio ac unrhyw gryfderau neu heriau a ganfuwyd yn dilyn y cymorth.
Nodwch a yw'r teulu'n cydsynio i rannu gwybodaeth a chael gwybodaeth gan yr asiantaethau/gwasanaethau.
17. Nodwch unrhyw asiantaethau, gwasanaethau neu unigolion nad yw'r teulu'n cydsynio i rannu gwybodaeth â nhw nac i gael gwybodaeth ganddyn nhw na darparu rhagor o fanylion.
18. Nodwch a yw'r unigolyn a enwyd neu'r teulu'n agored i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Os ydyn nhw, darparwch enw'r Gweithiwr Cymdeithasol os yw'n hysbys.

19. Nodwch a oes gan yr unigolyn a enwyd neu'r teulu blentyn/blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
Os oes, nodwch enw/enwau'r plentyn/plant.
20. Mae hyn yn bwysig i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a dylai teuluoedd fod yn gallu cael darpariaeth/cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddan nhw'n dymuno.
Nodwch a ydych chi wedi gwneud y Cynnig Rhagweithiol, ac os na, nodwch pam.
Nodwch a yw'r teulu wedi gwneud cais am wasanaethau Cymraeg.
Os do, nodwch a gafodd gwasanaethau eu darparu yn Gymraeg. Os na chafodd gwasanaethau eu darparu yn Gymraeg, nodwch pam.
21. Nodwch famiaith neu ddewis iaith yr unigolyn a enwyd neu'r teulu. Os oes mwy nag un iaith yn cael ei defnyddio yn y tŷ, nodwch pob un o'r ieithoedd a dewis iaith pob un o'r unigolion fel bod modd diwallu anghenion pawb.
Nodwch a oes angen cyfieithydd ar y pryd.
22. Nodwch a oes gan yr unigolyn a enwyd neu unrhyw un yn y teulu salwch hirdymor, problem iechyd neu anabled.
23. Nodwch a oes gan yr unigolyn a enwyd neu aelod o'r teulu anghenion mynediad.
24. Os yw'r unigolyn a enwyd neu'r teulu'n cael cymorth gan ofalwyr, eiriolwyr, rhieni, partneriaid neu aelodau eraill o'r teulu'n ddi-dâl, nodwch a fyddai'r unigolyn/unigolion hyn ar gael i gefnogi'r unigolyn a enwyd neu'r teulu drwy gydol eu cymorth e.e. mewn cyfarfodydd, grwpiau, galwadau ffôn ac ati.
25. Dewiswch ethnigrwydd yr unigolyn a enwyd.
26. Nodwch a oes unrhyw bryderon neu broblemau hysbys am y rhestr a roddwyd.
Nodwch a oes unrhyw aelod o'r teulu yn peri risg i unrhyw rai o'r grwpiau a enwyd.
Os nodwyd pryder, mater hysbys, neu risg, nodwch ragor o fanylion.

Adran 2 - Pum elfen sy'n sail i'r rheswm dros atgyfeirio

27. Nodwch gefndir y teulu a'r rheswm dros yr atgyfeiriad e.e. unrhyw anghenion tai, digartrefedd, ddim yn mynd i'r ysgol, argyfwng teuluol, cymorth am anghenion ychwanegol, profedigaeth, cymorth rhianta, cymorth am ymddygiad, anghenion sgiliau sylfaenol, cam-drin domestig, cymorth ariannol, eiriolaeth (rhieni neu blant), anghenion cyflogaeth neu hyfforddiant, rhiant wedi'i garcharu, ac ati. Dylech gynnwys unrhyw ddata sydd gennych ar gael, e.e. data presenoldeb, rhybudd troi allan, llythyron rheoli dyledion, ac ati.
Nodwch pa ddyddiad cafodd y wybodaeth ei chofnodi.
28. Nodwch beth mae'r unigolyn a enwyd neu'r teulu am ei gyflawni. Trafodwch hyn gyda'r unigolyn a enwyd neu'r teulu i ddeall eu safbwynt (efallai fod ganddyn nhw syniad am wasanaeth neu gymorth a allai fod o fudd iddyn nhw). Fel gweithiwr proffesiynol, gallwch drafod gyda nhw beth allai fod ar gael. Os ydych yn ymwybodol o wasanaethau y byddech yn dymuno atgyfeirio'r unigolyn a enwyd neu'r teulu atynt, byddwch yn eglur a'u henwi. Os oes gan yr unigolyn a enwyd neu'r teulu anghenion lluosog, nodwch nhw yn ôl blaenoriaeth.
Nodwch pa ddyddiad cafodd y wybodaeth ei chofnodi.
29. Nodwch beth mae'r unigolyn a enwyd neu'r teulu yn credu yw eu rhwystrau rhag cyflawni'r canlyniadau maen nhw'n eu dymuno.
Nodwch pa ddyddiad cafodd y wybodaeth ei chofnodi.
30. Nodwch beth allai ddigwydd pe na bai anghenion yr unigolyn a enwyd neu'r teulu'n cael eu nodi a'u cefnogi. Beth all ddigwydd yn eu barn nhw? Beth yw'r risg i'r unigolyn a enwyd neu'r teulu?
Nodwch pa ddyddiad cafodd y wybodaeth ei chofnodi.
31. Nodwch gryfderau a heriau personol yr unigolyn a enwyd neu'r teulu gan gynnwys asiantaethau/gwasanaethau blaenorol. Beth mae pob un yn dda am ei wneud? Beth yw eu heriau personol unigol?
Nodwch pa ddyddiad cafodd y wybodaeth ei chofnodi.
32. Rhaid nodi enw'r atgyfeiriwr a manylion am y sefydliad atgyfeirio yn yr adran hon.
33. Rhaid cynnig copi o'r asesiad a dylid ei ddarparu os gwneir cais amdano.
34. Dyma'r cydsyniad penodol sydd ei angen gan y teulu er mwyn rhannu gwybodaeth gyda'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth er mwyn cael y cymorth a nodwyd. Gwnewch yn

siŵr bod Defnyddiwr y Gwasanaeth yn ei lofnodi ac yn nodi'r dyddiad, os nad yw hyn yn bosibl, dilynwch bwynt 35.

35. Llenwch yr adran hon os yw'r unigolyn a enwyd neu aelod o'r teulu yn methu'n gorfforol â llofnodi'r ffurflen. Sicrhewch eich bod wedi darllen 'Manylion am y Cydsyniad a Gafwyd' ar gyfer yr unigolyn a enwyd neu'r teulu a'u bod wedi rhoi arwydd clir eu bod yn deall ac yn cydsynio i hyn.

Cydsyniad Ychwanegol yn Unig

36. Mae hwn yn gydsyniad ychwanegol ar gyfer unrhyw wybodaeth a gafodd ei hychwanegu at y cydsyniad gwreiddiol a gafwyd i'w basio ymlaen i asiantaeth arall. Mae hyn yn benodol bwysig os yw'r unigolyn a enwyd neu'r teulu angen gwasanaethau ychwanegol ar ddiwedd yr ymyrraeth maen nhw wedi'i chael. Dyma'r cydsyniad penodol sydd ei angen gan y teulu er mwyn rhannu gwybodaeth gyda'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth er mwyn cael y cymorth pellach a nodwyd. Gwnewch yn siŵr bod Defnyddiwr y Gwasanaeth yn ei lofnodi ac yn nodi'r dyddiad, os nad yw hyn yn bosibl, dilynwch bwynt 37.
37. Llenwch yr adran hon os yw'r unigolyn a enwyd neu aelod o'r teulu yn methu'n gorfforol â llofnodi'r ffurflen. Sicrhewch eich bod wedi darllen 'Manylion am y Cydsyniad Ychwanegol a Gafwyd' ar gyfer yr unigolyn a enwyd neu'r teulu a'u bod wedi rhoi arwydd clir eu bod yn deall ac yn cydsynio i hyn.

Ffurflen gau i ddangos effaith yr ymyrraeth

Dim ond gan brosiectau Teuluoedd yn Gyntaf bydd ffurflenni cau yn cael eu defnyddio, a hynny er mwyn pasio'r wybodaeth ymlaen i Dîm Cymorth Canolog Teuluoedd yn Gyntaf i nodi a yw'r ymyrraeth wedi'i chwblhau ac a lwyddwyd i sicrhau'r canlyniadau.

Yr unigolyn y gweithiwyd â nhw (dewisol)

1. Nodwch gyfenw'r unigolyn y gweithiwyd â nhw (dewisol).
2. Nodwch enw(au) cyntaf yr unigolyn y gweithiwyd â nhw (dewisol).

Gwybodaeth adnabod (plentyn)

3. Nodwch y cyfenw (fel mae'n ymddangos ar y dystysgrif geni, y dystysgrif priodas neu ddogfen gyfreithiol arall).
4. Nodwch enw(au) cyntaf (fel mae'n ymddangos ar y dystysgrif geni, y dystysgrif priodas neu ddogfen gyfreithiol arall).
5. Nodwch y Dyddiad Geni fel diwrnod / mis / blwyddyn.
6. Nodwch enw ysgol yr unigolyn neu ei Rif Yswiriant Gwladol os yw'n hysbys.
7. Nodwch god post y plentyn.
8. Nodwch enw'r ymyrraeth/prosiect.
9. Nodwch enw'r gweithiwr ar yr ymyrraeth/prosiect.
10. Nodwch ddyddiad cychwyn yr ymyrraeth/prosiect.
11. Nodwch ddyddiad gorffen yr ymyrraeth/prosiect.
12. Nodwch y canlyniadau a gyflawnwyd, unrhyw rwystrau, cryfderau, heriau, lefelau ymgysylltu, p'un a gwblhawyd yr ymyrraeth ac ati.

Dyma ddiwedd y ffurflen gau. Anfonwch y ffurflen gau i Dîm Cymorth Canolog Teuluoedd yn Gyntaf yn teuluoeddyngyntaf@caerffili.gov.uk a'i dychwelyd i'r atgyfeiriwr gwreiddiol fel y gallant gau eu cofnodion. Os cafwyd cydsyniad ychwanegol gan y teulu, gellir parhau i ddefnyddio hwn gyda gwasanaeth atal perthnasol er mwyn diwallu unrhyw anghenion sy'n dal i fod ganddynt.

Atodiad A

